

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Rhwng

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

a'r

Cyngor Meddygol Cyffredinol

12 Rhagfyr 2019

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

1. Cyflwyniad

Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw nodi swyddogaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, ac i ddisgrifio'r trefniadau ar gyfer cydweithredu a chyfathrebu rhwng y ddau gorff o ran eu priod swyddogaethau a delio â chwynion.

Bydd y ddau sefydliad yn cymryd camau i sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Byddant yn rhoi gwybod i staff am unrhyw newidiadau iddo, ac am y cyfrifoldebau mae'n ei roi ar bob aelod unigol o staff.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn helpu i gyflawni swyddogaethau, amcanion a chyfrifoldebau statudol y ddau sefydliad drwy'r ffyrdd canlynol:

- sicrhau bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn cydweithredu ac yn cyfnewid gwybodaeth, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol, gan gynnwys yr angen i barchu cyfrinachedd personol neu fasnachol;
- meithrin cyd-ddealltwriaeth a chysylltiadau effeithiol yn gyffredinol rhwng y ddau gorff;
- sicrhau bod materion sy'n effeithio ar y ddau ohonynt yn cael eu trin yn gyson;
- sicrhau perthynas agored a thryloyw rhwng y sefydliadau.

Ni fwriedir i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn fod yn gontract cyfreithiol, ac nid yw'n arwain at unrhyw hawliau neu rwymedigaethau cytundebol. Nid yw'n diystyru cyfrifoldebau na swyddogaethau statudol y llofnodwyr, nac yn amharu ar eu hawtonomiaeth na'u hatebolrwydd.

2. Swyddogaethau partïon y memorandwm hwn

2.1 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rôl statudol i ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol yng Nghymru. Mae hefyd yn ymchwilio i gwynion lle gallai aelodau o gyrff llywodraeth leol fod wedi torri cod ymddygiad yr awdurdod hwnnw. Nid yw ynghlwm wrth unrhyw gorff llywodraeth. Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw:

- Ystyried cwynion am gyrff cyhoeddus, gan gynnwys darparwyr Gwasanaeth Iechyd Teuluol a gwasanaethau gofal iechyd (dan amgylchiadau penodol) neu ofal cymdeithasol a lliniarol sy'n cael eu trefnu neu eu hariannu'n breifat.

- Ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r cod ymddygiad.
- Cywiro pethau a rhoi pobl yn y sefyllfa y byddent ynddi pe na baent wedi dioddef anghyfiawnder, a gweithio i sicrhau'r canlyniad gorau posibl os oes anghyfiawnder wedi digwydd.
- Gweithio gyda chyrrff i sicrhau bod y gwersi drwy ymchwiliadau'n cael eu dysgu.
- Ymgymryd â'i "Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun" i faterion sydd o fudd ehangach i'r cyhoedd o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon
- Annog gwelliant parhaus mewn safonau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy gynorthwyo cyrrff i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf – i weithio i leihau nifer y cwynion trwy helpu darparwyr gwasanaethau i wella'u penderfyniadau.

2.2 Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn sefydliad annibynnol sy'n helpu i warchod cleifion a gwella addysg ac ymarfer meddygol ledled y DU. Daw pwerau a swyddogaethau statudol y Cyngor Meddygol Cyffredinol o Ddeddf Meddygaeth 1983.

- Ni sy'n penderfynu pa feddygon sy'n gymwys i weithio yma ac rydym yn goruchwyllo hyfforddiant ac addysg feddygol yn y DU
- Rydym yn gosod y safonau mae'n rhaid i feddygon eu dilyn, ac yn gwneud yn siŵr eu bod nhw'n parhau i gyrraedd y safonau hyn drwy gydol eu gyrfaeodd.
- Rydym yn cymryd camau i atal meddyg rhag peryglu diogelwch cleifion, neu beryglu hyder y cyhoedd mewn meddygon
- Rhaid i feddygon fod wedi'u cofrestru gyda thrwydded i ymarfer gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

3. Ymgynghori a chydweithredu

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn cytuno i ymgynghori a chydweithredu â'i gilydd pan fydd swyddogaethau a chymau gweithredu un corff yn effeithio ar swyddogaethau a chymau gweithredu'r llall, a hynny er mwyn cyflawni eu priod swyddogaethau mor llawn, effeithiol ac effeithlon â phosibl. Bydd y cydweithrediad hwn yn cynnwys rhannu gwybodaeth briodol a chynnal cyfathrebu effeithiol pan fydd hynny'n llywio ac yn gwella gwaith y partïon.

Gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn gwahodd cynrychiolydd o'r parti arall i dimau prosiect a grwpiau gwaith ac ati, pan fo'r ddau barti yn credu y byddai cydweithio o fudd iddynt. Bydd y ddau barti yn annog eu staff i ddatblygu cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol rhwng ei gilydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o rolau, cyfrifoldebau a dulliau'r naill barti a'r llall.

4. Rhannu gwybodaeth

Bydd cydweithredu rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn aml yn gofyn i wybodaeth gael ei chyfnewid. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydweithio a chyfnewid gwybodaeth sydd wedi'i nodi yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac unrhyw gytundebau atodol yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall (gan gynnwys, lle y bo hynny'n berthnasol, Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019) ac unrhyw godau ymddygiad, fframweithiau neu bolisiau eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn cydnabod y gallai rhai materion gael eu cyflwyno (neu efallai y gellid eu cyflwyno) i'r ddau sefydliad. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r cyrff yn ymrwmo i gysylltu cymaint ag y bo modd, gan roi ystyriaeth briodol i'r gofynion sydd ar y ddau i gydymffurfio'n llawn â rhwymedigaethau cyfrinachedd a diogelu data perthnasol. Bydd y cyswllt hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod dymuniadau'r sawl sy'n codi'r pryderon yn cael eu parchu, a'i fod yn cael y cyngor gorau posibl ynghylch y dewisiadau sydd ar gael. Cymerir gofal arbennig i osgoi sefyllfaoedd lle nad yw pryderon yn cael eu hystyried yn iawn oherwydd bod dryswch ynglŷn ag at le i gyfeirio unigolyn, neu a yw unigolyn wedi cael ei gyfeirio ai peidio.

Ategir y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gan Atodlen 1: Disgrifiad o'r Wybodaeth i'w rhannu dan y cytundeb hwn, a dylid trosglwyddo Data Personol dan y cytundeb hwn yn y fformat a nodir yn yr atodiadau i Atodlen 1.

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn berthnasol i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Os ydy un sefydliad yn cael cais am wybodaeth sydd wedi deillio gan y llall, bydd y sefydliad sy'n derbyn y cais yn ei drafod gyda'r llall cyn ymateb.

5. Gwybodaeth i'r cyhoedd ac i sefydliadau eraill

Cyn cyhoeddi unrhyw arweiniad, cyhoeddusrwydd neu wybodaeth i'r cyhoedd neu i sefydliadau eraill am unrhyw agwedd ar eu swyddogaethau presennol neu arfaethedig sy'n ymwneud â chwynion, bydd y naill barti yn ystyried i ba raddau y byddai'n helpu'r llall i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ac yn effeithlon, pe bai'r sefydliad hwnnw a'i swyddogaethau yn cael eu crybwyll. Lle bo'n berthnasol ac yn bosibl, bydd y naill barti yn gwahodd y llall i gymryd rhan mewn unrhyw gynadleddau, seminarau neu weithdai y mae'n eu trefnu.

6. Cyfarfodydd cyswllt

Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn parhau i gysylltu'n rheolaidd a chwrdd fel y bo'n briodol i ystyried materion sydd o ddiddordeb i'r ddau ohonynt a godir yn sgil eu priod swyddogaethau.

7. Monitro ac adolygu'r memorandwm hwn

Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn sicrhau bod y naill a'r llall wedi cael enwau cysylltiadau priodol er mwyn gallu cysylltu fel sy'n angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau bob dydd. Gall y ddau barti gynnig diwygiadau i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Pan fydd unrhyw barti yn nodi problemau wrth weithredu'r Memorandwm hwn, bydd yn mynd ati i'w datrys yn gyflym ac yn anffurfiol. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yr Ombwdsmon a **Phennaeth Swyddfa Cyngor Meddygol Cyffredinol Cymru** yn gyfrifol am gytuno ar ateb sy'n dderbyniol i'r ddau barti. Bydd eu penderfyniad yn derfynol.

8. Prif gysylltiadau a datrys anghydfodau

Nodir manylion y prif gysylltiadau yn Atodiad 1.

Os bydd unrhyw anghydfod, mae cynrychiolwyr i'r llofnodwyr yn cytuno i drafod y ffordd orau o ddatrys y problemau ar lefel briodol. Dylid cynnal y drafodaeth hon cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Os nad yw hyn yn datrys yr anghydfod, caiff y mater ei gyfeirio at Bennaeth Swyddfa Cyngor Meddygol Cyffredinol Cymru a'r Ombwdsmon, a fydd yn gwneud eu gorau i gytuno ar ateb priodol.

9. Hyd ac adolygu

Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn weithredol o **1 Rhagfyr 2019** ymlaen. Nid oes cyfyngiad amser arno, a bydd yn parhau nes iddo gael ei amrywio neu fel arall yn ôl yr hyn a gytunir gan y llofnodwyr. Serch hynny, bydd y Memorandwm hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd i sicrhau ei fod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau rheoleiddiol neu ddeddfwriaethol cyfredol.

Llofnodwyr y Memorandwm

Llofnod:



Llofnod:

Enw: Nick Bennett

Enw: Katie Laugharne

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymru

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Dyddiad: 12 Rhagfyr 2019

Dyddiad:

Atodiad 1: Prif Gysylltiadau

1. Manylion cyswllt

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
<p>Chris Vinestock Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Gwella Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 1 Ffordd yr Hen Gae Pencoed CF35 5LJ</p> <p>Cyfeiriad e-bost uniongyrchol: Chris.Vinestock@ombudsman.wales</p> <p>Rhif ffôn: 01656 641173 https://www.ombwdsmon.cymru/</p>	<p>Katie Laugharne Pennaeth Swyddfa Cymru Y Cyngor Meddygol Cyffredinol 4ydd Llawr 2 Pentir Caspian Ffordd Caspian Bae Caerdydd CF10 4DQ</p> <p>Cyfeiriad e-bost uniongyrchol: Katie.Laugharne@gmc-uk.org</p> <p>Rhif ffôn: 02920 494948 https://www.gmc-uk.org/about/how-we-work/who-we-work-with/wales</p>

2. Dyma enwau'r cysylltiadau rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol:

Tîm Rheoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth	
<p>Geraint Jones Rheolwr Ymchwiliadau Cynorthwyol E-bost: Geraint.Jones@ombudsman.wales</p> <p>Rhif ffôn: 01656 641185</p>	<p>Manel Tippett Rheolwr Polisi a Materion Allanol E-bost: manel.tippett@gmc-uk.org</p>

ATODLEN 1: DISGRIFIAD O'R WYBODAETH I'W RHANNU

Dylid darllen yr atodlen hon ar y cyd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd mewn lle rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, a gytunwyd ar 29 Tachwedd 2019.

Mae'r atodlen hon wedi cael ei llunio i hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth rhwng y partïon. Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth sy'n cael ei rhannu fod yn gymesur, ac yn ddim mwy na sy'n angenrheidiol ar gyfer y diben y mae'n cael ei rhannu ar ei gyfer. Wrth rannu gwybodaeth rydym yn cydnabod cyfrifoldebau statudol ein gilydd.

Dylid defnyddio'r ffurflenni rhannu gwybodaeth sydd wedi'u hatodi wrth rannu neu wneud cais am wybodaeth.

1. Y wybodaeth y gallai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ei rhannu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw:

1.1 Data personol a data categorïau arbennig, gan gynnwys:

- a) enw;
- b) dyddiad geni;
- c) cyfeiriad cofrestredig;
- d) rhif cofrestru'r Cyngor Meddygol Cyffredinol;
- e) statws cofrestru;
- f) manylion cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost;
- g) manylion y cwynion/pryderon a godwyd;
- h) manylion ymchwiliadau cyfredol;
- i) manylion y troseddau honedig;
- j) manylion euogfarnau;
- k) hanes Addasrwydd i Ymarfer;
- l) manylion cyflogaeth;

1.2. Unrhyw wybodaeth arall y mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn gallu ei darparu neu ei chynhyrchu ac mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol i ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2. Y wybodaeth, gan gynnwys data personol a data categorïau arbennig, y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ei chael at ddibenion ymchwiliad gan yr Ombwdsmon, y gall yr Ombwdsmon ei rhannu â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yw:

2.1 Unrhyw wybodaeth sydd, ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn angenrheidiol ei rhannu â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol at ddibenion ymchwiliad gan y Cyngor, a hynny er iechyd neu ddiogelwch cleifion a'r cyhoedd.

2.2 Cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ond y gallai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ymdrin â nhw'n well, a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chwynion o'r fath, lle mae'r achwynydd wedi rhoi ei ganiatâd i'r gŵyn a'r wybodaeth gysylltiedig gael eu rhannu â'r Cyngor.

2.3 Unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu bod unigolyn yn debygol o achosi perygl i iechyd neu ddiogelwch cleifion a ddatgelir i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol er iechyd a diogelwch cleifion.

2.4 Adroddiadau ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a datganiadau o resymau dros beidio ag ymchwilio i gwynion a wneir i'r Ombwdsmon y mae'n eu hystyried yn addas i'w hanfon at y Cyngor Meddygol Cyffredinol pan fodlonir y gofynion ym mharagraff 2.3.

3. Y wybodaeth, gan gynnwys data personol a data categorïau arbennig, nad ydy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ei chael at ddibenion ymchwiliad gan yr Ombwdsmon, y gall yr Ombwdsmon ei rhannu â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yw:

3.1 Unrhyw wybodaeth y mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn ei hystyried yn berthnasol i'w waith o gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Ffurflen Rhannu Gwybodaeth

Rydym yn credu y gallai'r wybodaeth ganlynol fod o ddiddordeb i'ch sefydliad:

Enw'r sefydliad sy'n rhannu'r wybodaeth:	
Enw'r sefydliad* sy'n cael y wybodaeth: *Rhowch enw'r prif gyswllt.	
Enw a swydd y sawl sy'n rhannu'r wybodaeth:	
Y wybodaeth a ddarperir gan gynnwys, lle bo'n berthnasol: - Enw'r cofrestrydd; - Rhif cofrestru; a - Cyfeiriad cofrestredig/cyfeiriad y practis.	
Ffynhonnell y wybodaeth:	
Y rheswm/rhesymau dros ddatgelu:	
Unrhyw gamau gweithredu dilynol:	
Rhestr o unrhyw ddogfennau a ddarperir:	
A yw'r unigolyn dan sylw yn ymwybodol fod y wybodaeth hon wedi cael ei rhannu:	
Unrhyw drefniadau penodol ynghylch cadw/dileu gwybodaeth:	
Unrhyw wybodaeth berthnasol arall:	
Dyddiad datgelu:	
Enw a swydd y sawl sy'n llenwi'r ffurflen hon:	
Llofnod:	

Dyddiad:	
----------	--

Ffurflen Gwneud Cais am Rannu Gwybodaeth

Enw'r sefydliad sy'n gofyn am y wybodaeth:	
Enw'r sefydliad* y gofynnir am y wybodaeth ganddo: <i>*Rhowch enw'r prif gyswllt</i>	
Enw a swydd y sawl sy'n gofyn am y wybodaeth:	
Y wybodaeth y gofynnir amdani:	
Cyfeiriad at y cytundeb rhannu gwybodaeth:	
Pwrpas:	
Dyddiad gofynnol:	
Unrhyw drefniadau penodol ynghylch cadw/dileu gwybodaeth:	
Dyddiad y cais:	
Unrhyw wybodaeth berthnasol arall:	
Llofnod:	
Dyddiad:	

Ffurflen y Penderfyniad am Rannu Gwybodaeth

Enw'r sefydliad sy'n rhannu'r wybodaeth:	
Enw'r sefydliad* sy'n cael y wybodaeth: <i>*Rhowch enw'r prif gyswllt</i>	
Dyddiad derbyn y cais:	
Y wybodaeth y gofynnir amdani:	
Pwrpas:	
Ffactorau/amodau Deddf Diogelu Data	
Penderfyniad:	
Y wybodaeth a roddir:	
Rheswm/rhesymau dros ddatgelu neu beidio â datgelu:	
Rhestr o unrhyw ddogfennau a ddarperir:	
Unrhyw drefniadau penodol ynghylch cadw/dileu'r wybodaeth a ddarperir:	
Unrhyw wybodaeth berthnasol arall:	
Gwnaed y penderfyniad gan (enw a swydd):	
Enw a swydd y sawl sy'n llenwi'r ffurflen hon, os yw'n wahanol i'r uchod:	
Dyddiad datgelu:	
Llofnod:	
Dyddiad:	